



Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru

Crynodeb Gweithredol

Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru

Lluniwyd Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru fel rhan o brosiect Llechen Lân Cymru. Prosiect gan BAM Nuttall a ariannwyd gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) oedd Llechen Lân Cymru a oedd yn anelu at helpu cyn-droseddwy'r i fanteisio ar gyfleoedd yn y diwydiant adeiladu. Nod cyffredinol y prosiect oedd rhoi'r adnoddau i'r diwydiant adeiladu i'w alluogi i barhau i helpu cyn-droseddwy'r ar ôl i'r prosiect ffurfiol ddod i ben. Fel rhan o'r prosiect, rhoddwyd cynlluniau peilot ar waith er mwyn profi adnoddau i alluogi'r diwydiant adeiladu i helpu cyn-droseddwy'r. Defnyddiwyd y broses o roi'r cynlluniau peilot ar waith ac adborth o'r cynlluniau peilot hynny i ddatblygu Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru. Mae'r Pecyn Cymorth yn cynnwys canllawiau ar ymgysylltu â chyn-droseddwy'r a thempledi y gellir eu golygu y gall cwmnïau adeiladu eu haddasu wrth ymgysylltu â chyn-droseddwy'r mewn carchardai a chymunedau.

Adran Un: Ymgysylltu â Chyn-droseddwy'r mewn Carchardai a Chymunedau

Mae adran un o'r Pecyn Cymorth yn ystyried ymgysylltu â chyn-droseddwy'r mewn carchardai yn gyntaf ac yn trafod rhai o'r cwestiynau allweddol sydd angen eu gofyn wrth gynllunio gweithgareddau mewn carchardai. Mae'n cynnwys templedi sy'n helpu'r diwydiant adeiladu i ymgysylltu'n benodol â chyn-droseddwy'r mewn carchardai. Mae'r templedi yn cynnwys:

- Atodiad Un Cynllun Prosiect – Mae'r cynllun prosiect yn gosod y sylfeini ar gyfer rhoi prosiect ar waith mewn carchar ac yn helpu i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau.
- Atodiad Dau Ffurflen Ffair Gyrfaoedd – Lluniwyd y ffurflen ffair gyrfaoedd oherwydd gallai fod angen gwybodaeth wahanol gan gyfranogwyr mewn ffair yrfaeod mewn carchar na'r hyn y byddai ei hangen gan gyfranogwyr mewn ffair yrfaeod yn y gymuned, er enghraifft, dyddiad rhyddhau, rhif carchar neu'r ardal y byddant yn dychwelyd iddi.
- Atodiad Tri Ffurflen Ymgynghori – Lluniwyd y ffurflen ymgynghori gan fod llawer o weithwyr adeiladu profiadol mewn carchardai a gall fod yn anodd gwybod sut i'w helpu orau. Mae'r ffurflen ymgynghori yn golygu y gall cwmnïau adeiladu ofyn i'r cyfranogwyr sut i'w helpu orau er mwyn iddynt allu manteisio ar gyfleoedd yn y diwydiant adeiladu.

Nesaf, mae adran un o'r Pecyn Cymorth yn ystyried ymgysylltu â chyn-droseddwy'r mewn cymunedau. Mae'r adran ar weithio gyda chyn-droseddwy'r yn y gymuned yn ystyried recriwtio yn gyntaf. Mae recriwtio ymhlith yr agweddau mwyaf heriol ar gyflwyno prosiectau yn y gymuned, ac rydym wedi cynnwys ffurflen atgyfeirio i hwyluso'r broses recriwtio. Nesaf, caiff canllawiau ar brofiad gwaith di-dâl eu cynnwys, gan ei bod yn bwysig pennu disgwyliadau ar gyfer lleoliadau gwaith. Cynhwyswyd Cynllun Gweithredu Unigol (IAP) y gellir ei ddefnyddio fel rhan o gyfweiliad recriwtio neu fel sail ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

- Atodiad Pedwar Ffurflen Atgyfeirio – Cynhwyswyd y ffurflen atgyfeirio er mwyn hwyluso'r broses recriwtio.
- Atodiad Pump Cytundeb Profiad Gwaith – Cynhwyswyd cytundeb profiad gwaith gan ei bod yn bwysig cyfleu disgwyliadau'r ddau barti hyd yn oed yn ystod profiad gwaith di-dâl.
- Atodiad Chwech Cynllun Gweithredu Unigol (IAP) – Gellir defnyddio'r Cynllun Gweithredu Unigol i asesu'r ffactorau sy'n rhwystro dysgwyr, eu hanghenion dysgu a'u dyheadau. Cynhwyswyd y Cynllun Gweithredu Unigol gan ei fod wedi bod yn ddefnyddiol wrth gyfweild â darpar ddysgwyr ar gyfer cwrs. Defnyddiwyd y Cynllun Gweithredu Unigol hefyd fel sail ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ym maes adeiladu mewn cymunedau ac mewn carchardai.

Adran Dau: Ymyriadau

Mae adran dau o'r Pecyn Cymorth yn ystyried ymyriadau gyda chyn-droseddwr yn y gymuned ac mewn carchardai. Yn gyntaf, ceir enghreifftiau o gyrsiau adeiladu mewn carchar ac mewn cymuned. Yn ail, ceir esboniad cryno o'r templedi ar gyfer gwaith papur a brofwyd yn ystod cynlluniau peilot 'Llechen Lân Cymru'.

- Atodiad Saith Rhestr Wirio Parodwydd i Weithio – Crëwyd y rhestr wirio parodwydd i weithio yn benodol ar gyfer y Pecyn Cymorth pan sylweddolwyd na allai rhai o gyfranogwyr y cynlluniau peilot brofi eu hawl i weithio yn y DU ar ôl llwyddo mewn cyfweiliad. Mae'r Rhestr Wirio hefyd yn gofyn cwestiynau sy'n benodol i'r diwydiant adeiladu, megis parodwydd i gymryd profion am gyffuriau a ph'un a ydynt yn barod i weithio'n galed yn gorfforol.
- Atodiad Wyth Gwe Effeithiau - Datblygwyd Gwe Effeithiau er mwyn mesur effaith ymyriadau sy'n helpu cyn-droseddwr i ddod o hyd i gyflogaeth. Wrth weithio ar brosiectau byrdymor, gall fod yn anodd nodi'r newidiadau a wnaed gan ymyriad. Weithiau, wrth weithio gyda grwpiau sy'n wynebu rhwystrau, bydd y cyfranogwyr yn gwneud cynnydd ond mae'n bosibl na fyddant yn dod o hyd i swydd ar unwaith. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch yn gwybod bod eich prosiect wedi gwneud gwahaniaeth i'r unigolyn hwnnw, er enghraifft, ei fod wedi gwella ei hyder. Un ffordd o fesur p'un a yw prosiect wedi gwneud gwahaniaeth i unigolyn yw mesur ei gynnydd tuag at nod.

Adran Tri: Cyflogaeth

Mae adran tri o'r Pecyn Cymorth yn ystyried cyflogi cyn-droseddwr. Ystyrir pwysigrwydd dymchwel rhwystrau a chyflogi pobl yn seiliedig ar dalent. Mae menter 'Ban the Box' gan y sefydliad Busnes yn y Gymuned yn enghraifft dda o hyn. Trafodir p'un a yw gwiriadau o gofnodion troseddol, sef Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), yn berthnasol ac yn briodol i'r rôl. Yn olaf, os bydd ymgeisydd yn datgelu bod ganddo gollfarn heb ei disbyddu neu os caiff gwiriad DBS ei ddychwelyd gan nodi collfarn heb ei disbyddu, mae'n bwysig cael rhagor o wybodaeth. Cynhwysir canllawiau ar gwblhau cyfweiliad asesu risg er mwyn i chi allu asesu p'un a yw ymgeisydd yn peri risg yn y swydd y gwnaeth gais amdani.

- Atodiad Naw Canllawiau a Thempled ar gyfer Cyfweiliad Asesu Risg – Gellir defnyddio'r canllawiau a'r templed ar gyfer cyfweiliad asesu risg os bydd ymgeisydd yn datgelu bod ganddo gollfarn heb ei disbyddu neu os caiff gwiriad DBS ei ddychwelyd gan nodi collfarnau heb eu disbyddu. Efallai y bydd yn amlwg ar unwaith nad yw ymgeisydd yn addas ar gyfer swydd oherwydd ei gofnod troseddol. O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, ni fyddwch yn gwybod p'un a yw ymgeisydd yn anaddas ar gyfer swydd hyd nes y byddwch yn gofyn cwestiynau iddo. Mae cyfweiliad asesu risg yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

Adran Pedwar: Cyfeirio

Mae adran pedwar o'r Pecyn Cymorth yn edrych ar enghreifftiau o'r sefydliadau y gellir cyfeirio cyn-droseddwr atynt os bydd angen cymorth ychwanegol arnynt. Os ydych yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, byddwch yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n ymwneud â'r diwydiant hwnnw. Os bydd angen help â materion nad ydynt yn gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu ar y bobl rydych yn eu cefnogi, bydd angen i chi eu cyfeirio at wasanaethau eraill.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Cyflwyniad	6
Adran Un: Ymgysylltu â Chyn-droseddwyr mewn Carchardai a'r Gymuned	8
Adran Dau Ymyriadau	17
Adran Tri Cyflogaeth	20
Adran Pedwar: Cyfeirio a Chymorth Pellach.....	23
Atodiad Un: Cynllun Prosiect ar gyfer Gweithio mewn Carchardai	25
Atodiad Dau: Ffurflen Ffair Gyrfaoedd	28
Atodiad Tri: Ffurflen Ymgynghori	29
Atodiad Pedwar: Ffurflen Atgyfeirio.....	31
Atodiad Pump: Cytundeb Lleoliad Gwaith	32
Atodiad Chwech: Templed ar gyfer Cynllun Gweithredu Unigol.....	35
Atodiad Saith: Rhestr Wirio Parodrwydd i Weithio	41
Atodiad Wyth: Gwe Effeithiau	43
Atodiad Naw: Canllawiau a Thempled ar gyfer Cyfweliad Asesu Risg.....	45
Ffynonellau Gwybodaeth Bellach	49
Rhestr termau	50

Cyflwyniad

Prosiect gan BAM Nuttall a ariannwyd gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) oedd Llechen Lân Cymru er mwyn helpu cyn-droseddwy'r i fanteisio ar gyfleoedd yn y diwydiant adeiladu. Rheolwyd y prosiect a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Rhagfyr 2018 gan yr Ymddiriedolaeth Ieuencid Adeiladu. Nod cyffredinol y prosiect oedd rhoi'r deunyddiau i'r diwydiant adeiladu i'w alluogi i barhau i helpu cyn-droseddwy'r ar ôl i'r prosiect ffurfiol ddod i ben. Fel rhan o'r prosiect, rhoddwyd cynlluniau peilot ar waith er mwyn profi adnoddau i alluogi'r diwydiant adeiladu i helpu pobl â cholffarnau. Defnyddiwyd y broses o roi'r cynlluniau peilot ar waith ac adborth o'r cynlluniau peilot hynny i ddatblygu Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru.

Cynlluniwyd Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru fel adnodd i'r diwydiant adeiladu er mwyn helpu cyn-droseddwy'r i ddod o hyd i gyflogaeth. Lluniwyd y Pecyn Cymorth fel rhan o brosiect BAM Nuttall a ariannwyd gan CITB i helpu pobl â cholffarnau i ddod o hyd i gyflogaeth yn y diwydiant adeiladu. Mae'r Pecyn Cymorth yn cynnwys templedi y gellir eu golygu a luniwyd yn dilyn prosiectau peilot o dan arweiniad y diwydiant adeiladu a oedd yn anelu at helpu cyn-droseddwy'r i fanteisio ar gyfleoedd yn y diwydiant adeiladu.

Trefnwyd y Pecyn Cymorth yn bedair adran, sef ymgysylltu, ymyriadau, cyflogaeth a chyfeirio.

- Mae adran un yn ystyried ffyrdd o ymgysylltu â chyn-droseddwy'r mewn carchardai ac mewn cymunedau. Mae hefyd yn ystyried sut i gynllunio gweithgareddau mewn carchardai ac mewn cymunedau. Mae'n cynnwys templed ar gyfer cynllun prosiect mewn carchardai a ffurflen gyfeirio ar gyfer sefydliadau cymunedol.
- Mae adran dau yn ystyried ymyriadau ac mae'n cynnwys templedi i unigolion sy'n cymryd rhan mewn ymyriadau megis Cynllun Gweithredu Unigol a Rhestr Wirio Parodrwydd i Weithio.
- Mae adran tri yn ymdrin â chyflogaeth a lleoliadau gwaith ac mae'n cynnwys canllawiau ar gwblhau cyfweiliad asesu risg a thempled asesu risg.
- Mae adran pedwar yn ystyried sut i gyfeirio unigolion a ffynonellau cymorth pellach ac mae'n cynnwys manylion rhai sefydliadau y gellir cyfeirio unigolion atynt yng Nghymru.

Manteision Gweithio gyda Chyn-droseddwy

Rhagwelir¹ y bydd y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn cynyddu 4.6% rhwng 2018 a 2022. Mae'r twf hwn yn fwy na'r twf o fewn unrhyw rai o'r rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig yn y DU. Caiff y twf ei lywio'n bennaf gan y sector seilwaith, gyda gwaith ar Wylfa Newydd a Metro De Cymru yn dechrau yn ystod y cyfnod dan sylw. Ceir tystiolaeth² bod y diwydiant adeiladu yng Nghymru eisoes yn wynebu problemau byrdymor o ran sgiliau. Mae cyn-droseddwy yn cynnig rhwydwaith newydd o unigolion sy'n awyddus ac yn barod i weithio a all helpu'r diwydiant adeiladu i oresgyn prinder sgiliau.

Mae dros 10 miliwn o bobl bellach wedi'u cofnodi fel unigolion â chofnod troseddol ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Mae hyn yn cyfateb i fwy nag 20% o'r boblogaeth o oedran gweithio³. Mae'r rhan fwyaf o bobl o'r farn bod unigolyn â chofnod troseddol wedi bod yn y carchar. Fodd bynnag, ni fydd y mwyafrif helaeth o'r bobl â chofnod troseddol (dros 90% ohonynt) erioed wedi bod mewn carchar⁴. Isod nodir rhai o'r rhesymau pam y dylai'r diwydiant adeiladu ystyried gweithio gyda chyn-droseddwy:

- Mae cwmnïau yng Nghymru eisoes yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i staff sy'n meddu ar sgiliau addas a gall hyn gael effaith negyddol megis achosi oedi wrth roi prosiectau ar waith a chodi cyflogau.⁵
- Dim ond 26.5%⁶ o garcharorion sy'n dod o hyd i gyflogaeth pan fyddant yn cael eu rhyddhau, sy'n golygu bod cronfa enfawr o dalent y gallai'r diwydiant gael budd ohoni.
- Mae manteision economaidd yn gysylltiedig â helpu cyn-droseddwy. Mae achosion o aildroseddu yn costio hyd at £13 biliwn i'r DU bob blwyddyn⁷. Mae hyn yn ychwanegol at y costau cymdeithasol ac economaidd a achosir drwy atal ymgeiswyr sydd fel arall yn gymwys, yn brofiadol ac yn uchel eu cymhelliant ac sy'n meddu ar y sgiliau priodol rhag gallu dod o hyd i gyflogaeth.
- Mae helpu cyn-droseddwy hefyd yn creu effeithiau cymdeithasol ehangach. Mae'n rhoi cyfle go iawn i gyn-droseddwy newid eu bywyd er gwell a chreu dyfodol gwell.
- Gall gweithio gyda chyn-droseddwy helpu i greu gwerth cymdeithasol a dangos i gleientiaid a chymunedau eich bod yn dychwelyd rhywbeth i'r gymuned.
- Mae p'un a fydd unigolyn yn dod o hyd i waith ai peidio yn dylanwadu'n sylweddol ar gyfraddau aildroseddu. Yn aml, nodir mai cyflogaeth yw'r ffactor pwysicaf o ran lleihau achosion o aildroseddu.⁸
- Gall cyflogwyr ddod o hyd i bobl â chofnod hyfforddi profedig gan fod carchardai yng Nghymru yn cynnig hyfforddiant adeiladu ardderchog.

¹ CITB (2018). Cypolwg CITB ar y Diwydiant: Rhagolygon y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu 2018-2022.

² CITB (2017). Cypolwg CITB ar y Diwydiant: Rhagolygon y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu 2017-2021

³ Y Swyddfa Gartref (2014)

⁴ Unlock (dim dyddiad). *10 things about criminal records: A guide for employability professionals supporting people into work*. Caint: Unlock a'r Sefydliad Gweithwyr Cyflogadwyedd Proffesiynol.

⁵ CITB (2016). Cypolwg ar y Diwydiant Adeiladu: Y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu 2016: 2020, Ar gael yn: https://www.citb.co.uk/documents/research/csn%202016-2020/csn_national_2016.pdf

⁶ Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷr Cyffredin (2016). Support for ex-offenders: Fifth Report of Session 2016-17: Llundain: Tŷr Cyffredin.

⁷ Y Swyddfa Gartref (2013)

⁸ NACRO (dim dyddiad). Recruiting Safely & Fairly a Practical Guide to Employing Ex-offenders. Llundain: NACRO.

Adran Un: Ymgysylltu â Chyn-droseddwyr mewn Carchardai a'r Gymuned

Mae Adran Un o'r Pecyn Cymorth yn ymdrin ag ymgysylltu ac mae'n ystyried ymgysylltu â chyn-droseddwyr mewn carchardai ac mewn cymunedau.

Ymgysylltu â Chyn-droseddwyr mewn Carchardai:

Mae'r canllawiau ar ymgysylltu â phobl â cholffarnau yn y carchar yn ystyried cwestiynau allweddol y gellir eu gofyn wrth gynllunio gweithgareddau mewn carchardai, carchardai yng Nghymru a manylion cyswllt y carchardai. Mae'r templedi yn cynnwys

- Atodiad Un: Cynllun Prosiect ar gyfer gweithio mewn carchardai
- Atodiad Dau: Ffurflen Ffair Gyrfaoedd
- Atodiad Tri: Ffurflen Ymgynghori

Ymgysylltu â Chyn-droseddwyr yn y Gymuned:

Mae'r canllawiau ar weithio gyda chyn-droseddwyr yn y gymuned yn ystyried trefniadau ymgysylltu cychwynnol a threfniadau recriwtio, gan gynnwys manylion cyswllt defnyddiol er mwyn dod o hyd i recriwtiaid. Mae'r templedi yn cynnwys:

- Atodiad Pedwar: Ffurflen Atgyfeirio
- Atodiad Pump: Cytundeb Profiad Gwaith
- Atodiad Chwech: Cynllun Gweithredu Unigol

Ymgysylltu â Chyn-droseddwyr mewn Carchardai yng Nghymru

Nod yr adran hon o'r Pecyn Cymorth yw rhoi cymorth i gyflogwyr yn y diwydiant adeiladu sy'n awyddus i ymgysylltu â charchardai. Mae'r diwydiant adeiladu yn enghraifft o'r ffordd y caiff hyfforddiant mewn carchardai ei normaleiddio drwy gynnig hyfforddiant neu gymorth cyflogadwyedd. Gall preswylwyr fanteisio ar fentrau hyfforddiant o dan arweiniad cyflogwyr o sefydliadau sy'n gweithio yn y diwydiant. Gall y diwydiant adeiladu hefyd deilwra cyrsiau i ymateb i brinderau sgiliau. Nid oes strategaeth bendant⁹ ar gyfer sut y mae gwahanol asiantaethau mewn gwahanol garchardai yn cydweithio er mwyn cyflawni'r nod cyffredin, sef helpu cyn-droseddwyr i ddod o hyd i gyflogaeth. O ganlyniad, gall fod llawer o wahanol asiantaethau wrthi'n helpu cyn-droseddwyr i ddod o hyd i gyflogaeth.

Yng Nghymru, mae gennym bum carchar, gyda phedwar o'r carchardai yng Nghymru yn cael eu rheoli o fewn y sector cyhoeddus, sef Carchar EM Caerdydd, Carchar EM Abertawe, Carchar EM Berwyn yn Wrecsam a Carchar EM Brynbuga. Mae gan garchar Brynbuga safle carchar lloeren ym Mhrescoed hefyd sy'n gweithredu fel carchar agored Categori D¹⁰ i ddynion. Caiff Carchar EM Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei redeg gan gwmni G4S, sy'n rhan o'r sector preifat. Nid oes unrhyw garchardai i fenywod yng Nghymru a chaiff menywod o Dde Cymru eu hanfon i Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw. Caiff menywod o Ogledd Cymru eu hanfon i Garchar EM Styal yn Swydd Gaer.

Dechrau Arni

Mae carchardai am wella cyflogadwyedd preswylwyr ac maent yn awyddus i weithio gyda'r diwydiant er mwyn gwneud hyn. Mae'n bwysig trefnu cyfarfod cychwynnol gydag aelodau allweddol o'r staff megis y tîm rheoli, y tîm ymgysylltu â busnesau a chymunedau, y tîm addysg neu sgiliau galwedigaethol. Mae'n werth trafod eich cynnig cychwynnol a'r buddiannau i'r ddwy ochr o weithio gyda'ch sefydliad.

Bydd angen i chi drefnu amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr i redeg unrhyw brosiectau mewn carchar. Mae'n bwysig bod yn hyblyg gan y gall pethau newid. Mae hefyd yn werth neilltuo amser ychwanegol er mwyn cynllunio a chynnal prosiectau mewn carchardai. Mae pwysigrwydd cyfathrebu'n agored â staff y carchar yn hollbwysig. Gofynnwch iddynt yn realistig faint o amser y bydd ei angen.

Bydd angen cryn dipyn o waith cynllunio, amser ac ymdrech i gynllunio prosiectau mewn carchardai. Mae staff carchardai yn treulio cryn dipyn o amser oddi wrth eu desgiau ac nid oes ganddynt ffonau symudol. Bydd angen neilltuo amser ychwanegol hefyd i sicrhau bod eich staff yn addas i weithio yn y carchar ac i gwblhau asesiadau risg. Pan fyddwch yn gweithio mewn carchardai, mae'n ddefnyddiol llunio cytundeb rhwng y carchar a'r cwmni adeiladu er mwyn nodi rolau, gofynion a chyfrifoldebau'r ddau bartner. Cynhwyswyd templed awgrymedig y gellir ei olygu o Gynllun Prosiect ar gyfer gweithio mewn carchar yn atodiad un. Gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllunio gweithgareddau.

Sut beth yw ymweld â charchar?

Os ydych yn recriwtio pobl o'ch cwmni i wirfoddoli mewn carchar, dylech gofio efallai na fyddant erioed wedi bod mewn carchar o'r blaen. Gallai rhai darpar wirfoddolwyr boeni am y broses. Er y bydd pob carchar yng Nghymru yn gwneud pethau ychydig yn wahanol i'w gilydd ac y dylech gyfeirio at ganllawiau pob carchar, nodir rhai o'r rheolau a'r gweithdrefnau sylfaenol isod:

- Bydd angen i chi roi manylion pawb sy'n dod i gyfarfod neu ddigwyddiad ymlaen llaw i'r carchar.
- Mae'n werth cyrraedd tua ugain munud yn gynnar oherwydd gall gymryd amser i gofrestru eich bod wedi cyrraedd.

⁹ Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin (2016). Support for ex-offenders: Fifth Report of Session 2016-17: Llundain: Tŷ'r Cyffredin.

¹⁰ Gweler y Rhestr Termau i gael rhagor o fanylion am y categorïau o garchardai

- Bydd angen manylion adnabod â llun ar bawb e.e. trwydded yrru. Mewn rhai carchardai, bydd angen i chi gadw eich manylion adnabod gyda chi gan y bydd angen i chi eu dangos pan fyddwch yn gadael. Mewn rhai carchardai, byddwch yn rhoi eich manylion adnabod mewn locer.
- Bydd rhai carchardai yng Nghymru yn tynnu eich llun ac yn sganio olion eich bysedd.
- Ni chewch fynd â'ch ffôn symudol gyda chi ond bydd loceri y gallwch eu defnyddio i'w gadw.
- Bydd angen i chi ddiosg eich oriawr deallus hefyd.
- Gallwch fynd â phamffledi, taflenni ac ati gyda chi ond mae'n werth cadarnhau ymlaen llaw bod hyn yn iawn.
- Mae'n bosibl y cewch eich chwilio cyn i chi fynd i mewn i'r carchar.
- Pan fydd rhywun yn barod i gyfarfod â chi, yna byddwch yn mynd trwy ddrws i'r carchar. Bydd yn rhaid i chi aros i'r drws y tu ôl i chi gau er mwyn i'r drws y tu mewn i'r carchar agor.
- Bydd rhywun ag allwedd i radio yn cyfarfod â chi neu gofynnir i chi aros am y person â'r allwedd i'r radio.
- Fwy na thebyg mai dim ond yn rhan addysg y carchar y byddwch chi. Mae'r ystafelloedd hyfforddiant adeiladu a'r ystafelloedd dosbarth yn union fel coleg. Byddwch yn anghofio eich bod mewn carchar pan fyddwch yn yr ystafelloedd hyfforddiant adeiladu a'r ystafelloedd dosbarth.
- Mae'n bosibl y bydd y preswylwyr yn gofyn i chi pam eich bod yno. Fwy na thebyg y bydd ganddynt ddi-ddordeb yn eich sefydliad ac y byddant am ofyn cwestiynau i chi.

Arfer Da: Diwrnod Diwydiant Carchar EM Parc

Fel rhan o brosiect Llechen Lân Cymru, cynhaliodd Carchar EM Parc ddiwrnod diwydiant lle yr aed â chyflogwyr adeiladu o amgylch yr adrannau adeiladu. Prif nod y digwyddiad oedd dangos yr hyfforddiant adeiladu yng Ngharchar EM Parc i gyflogwyr lleol a chyfarfod â rhai o'r ymgeiswyr ardderchog ar y cyrsiau a fyddai'n ased i'r diwydiant adeiladu. Roedd yr adborth gan y gwirfoddolwyr o'r diwydiant adeiladu a fynychodd y diwrnod yn gadarnhaol a dywedodd yr unigolion a gymerodd ran eu bod wir wedi mwynhau siarad â'r preswylwyr a chael gweld y cyfleusterau adeiladu. Roedd yr unigolion a gymerodd ran o'r farn bod y gweithdai adeiladu yn debycach i goleg na charchar. Canmolodd un unigolyn a gymerodd ran y carchar am wahodd y diwydiant i'r carchar ac am ofyn am adborth ar ei ddarpariaeth.

Syniadau ar gyfer Ymgysylltu â Phobl mewn Carchardai

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn recriwtio carcharorion ar gyfer cwrs, cyfleoedd cyflogaeth neu leoliad gwaith, gall ffeiriau swyddi, gweithdai a chyfweiliadau fod yn fan cychwyn da.

Ffeiriau Swyddi

Cynhelir Ffeiriau Swyddi mewn carchardai ac maent fel arfer yn cynnwys amrywiaeth o gyflogwyr a sefydliadau sy'n darparu cymorth. Gall Ffeiriau Swyddi fod ar gyfer diwydiant penodol neu gallant gynnwys amrywiaeth o sectorau. Mae Ffeiriau Swyddi mewn carchardai yr un peth â Ffeiriau Swyddi yn y gymuned. Bydd gan yr arddangoswyr stondinau a gall y carcharorion siarad â chyflogwyr am y swyddi sydd o ddi-ddordeb iddynt. Gweler y Ffurflen Ffair Gyrfaoedd yn atodiad dau er mwyn nodi gwybodaeth gan gyfranogwyr mewn ffair gyrfaoedd mewn carchar. Mae'n bwysig canolbwyntio ar sgiliau a phrofiad darpar ymgeiswyr yn hytrach na'u hanes o droseddu.

Gweithdai

Gallai'r carchar drefnu i gael grwpiau bach o drigolion ynghyd sy'n meddu ar y sgiliau, y cymwysterau a'r agwedd briodol ac yr hoffent gael eu cyflogi gan eich cwmni. Mae hyn yn cynnig y cyfle i'r preswylwyr ofyn cwestiynau i chi a chyfle i chi ddod i adnabod darpar ymgeiswyr mewn lleoliad mwy anffurfiol cyn cynnal cyfweiliad mwy ffurfiol. Gellir cynnal gweithdy cyn mynd i'r carchar i gwblhau cyfweiliadau. Cofiwch na fydd y preswylwyr yn gallu

edrych am fanylion am eich cwmni ar y rhyngwyd felly os byddwch yn bwriadu gofyn iddynt beth y maent yn ei wybod am eich cwmni mewn cyfweiliad, mae'n syniad da cynnal gweithdy yn gyntaf.

Mae'n ddefnyddiol canfod faint o wybodaeth sydd gan yr unigolion yn yr ystafell er mwyn paratoi cyflwyniad addas. Os na fyddwch wedi cael gwybodaeth ymlaen llaw, byddai'n fuddiol gofyn i aelodau'r gynulleidfa gyflwyno eu hunain a nodi p'un a oes ganddynt unrhyw brofiad adeiladu. Fwy na thebyg y byddwch yn annerch gweithwyr adeiladu profiadol a phobl brofiadol sy'n awyddus i weithio mewn maes gwahanol neu y mae angen iddynt weithio mewn maes gwahanol oherwydd collfarn, er enghraifft, ni allant weithio ym maes diogelwch mwyach. Byddai'n well sôn am eich gwaith cyfredol, y rolau cysylltiedig a'r heriau technegol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect, yn hytrach na chynnig cyflwyniad cyffredinol i yrfa yn y diwydiant adeiladu. Er enghraifft, mewn digwyddiad gyrfaoedd yng Ngharchar EM Parc, gwnaeth ISG gyflwyniad am ei waith diweddar yn datblygu swyddfeydd y BBC yng nghanol Caerdydd a gafodd groeso cynnes.

Cyfweiliadau

Mae cyfweild â charcharorion sydd yn y ddalfa o hyd o fudd i gyflogwyr mewn sawl ffordd. Gall cyflogwyr ofyn i'r carchar nodi darpar ymgeiswyr sy'n meddu ar y sgiliau priodol sydd ar fin cael eu rhyddhau. Gellir rhyddhau preswylwyr yng Ngharchar EM Prescoed a Charchar EM Berwyn ar drwydded dros dro (ROTL) er mwyn cwblhau lleoliad profiad gwaith. Gall cyflogwyr hefyd gyfweild â charcharorion ar gyfer cyfleoedd profiad gwaith y gallant eu cwblhau os bydd ganddynt drwydded dros dro. Pan fydd gan garcharor drwydded dros dro (ROTL), gellir ei ryddhau a gall adael y carchar am gyfnod byr i gwblhau prosiect cymunedol, lleoliad gwaith neu i gymryd rhan mewn cwrs hyfforddi. Fel rhan o brosiect Llechen Lân Cymru, rydym wedi dod o hyd i lawer o bobl â cholffarnau nad ydynt erioed wedi cael cyfweiliad am swydd. Mae'n werthfawr i gyflogwr fynd i garchardai a chynnig ffug-gyfweiliadau realistig.

Arfer Da: Galliford Try

Wrth ymgysylltu â phreswylwyr mewn carchar, mae cynnal gweithdy gyrfaoedd yn fan cychwyn da. Gall staff y carchar recriwtio'r bobl sydd â diddordeb mewn dechrau gyrfa neu barhau â gyrfa yn y diwydiant adeiladu. Cynhaliodd Galliford Try weithdy gyrfaoedd yng Ngharchar EM Berwyn. Gwnaethant ofyn i'r preswylwyr ddangos sut y gallai'r diwydiant adeiladu eu helpu yn y dyfodol. Ceir Ffurflen Ymgynghori debyg yn atodiad tri. Gall y preswylwyr a hoffai fynychu'r gweithdy lenwi'r ffurflen hon ymlaen llaw. Gellir llenwi'r Ffurflen Ymgynghori hefyd ar ddiwedd y gweithdy er mwyn i chi allu cynllunio gweithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol.

Manylion Cyswllt Carchardai yng Nghymru a Charchardai yn Lloegr ar gyfer Menywod o Gymru

Carchar	Cyfeiriad	Rhif Ffôn	Ardal	Nifer y Lleoedd	Categori
Carchar EM Berwyn	Ystad Ddiwydiannol Wreccsam, Heol y Bont, Wreccsam, LL13 9QE	01978 523000	Gogledd Cymru	2,106	C
Carchar EM Caerdydd	Heol Knox, Caerdydd, CF24 0UG	02920 923100	De-ddwyrain Cymru	820	B
Carchar EM Parc	Heol Hopcyn John, Coity, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 6AP	01656 300200	Pen-y-bont ar Ogwr	2000	B

Carchar EM Prescoed ¹¹	Coed-y-Paen, Pont-y-pŵl, Sir Fynwy, NP4 0TB	01291 671600	Sir Fynwy	230	D
Carchar EM Brynbuga	47 Stryd Maryport Brynbuga Sir Fynwy NP15 1XP	01291 671600	Sir Fynwy	273	C

Caiff carcharorion eu rhannu i'r pedwar categori diogelwch canlynol:

- **Categori A:** Byddai'r rheini sy'n dianc yn beryglus iawn i'r cyhoedd neu i ddiogelwch gwladol.
- **Categori B:** Y rheini nad oes angen y lefel diogelwch uchaf arnynt, ond y mae angen sicrhau y byddai'n anodd iawn iddynt ddianc.
- **Categori C:** Y rheini na ellir ymddiried ynddynt mewn amodau agored (h.y. carchar heb berimedr diogel) ond nad ydynt yn debygol o geisio dianc.
- **Categori D:** Y rheini y gellir ymddiried yn rhesymol ynddynt i beidio â cheisio dianc, ac y rhoddir braint carchar agored iddynt.

Bydd y rhan fwyaf o garcharorion sydd ar fin cael eu rhyddhau naill ai'n perthyn i gategori C neu gategori D. Gelwir y carchardai lle y cedwir carcharorion sydd ar fin cael eu rhyddhau yn garchardai ailsefydlu. Ond maent yn amrywio'n sylweddol o ran pwy a gedwir yno a beth y gallant ei gynnig. Yn ddelfrydol, dylech ddod i adnabod y carchar lleol rydych am ddelio ag ef.

Beth sy'n Gweithio mewn Carchardai

Mae'r deg pwynt canlynol yn nodi deg peth rydym wedi'i ddysgu o weithio mewn carchardai:

1. Dylech ganiatáu amser ychwanegol i gynllunio gweithgareddau mewn carchardai. Mae'n llawer haws recriwtio mewn carchardai na recriwtio yn y gymuned ond cofiwch y bydd yn cymryd amser i feithrin cydberthnasau â staff y carchar ac i gynllunio gweithgareddau.
2. Dylech gyfathrebu'n rheolaidd â staff y carchar a sicrhau bod sianeli cyfathrebu clir ac agored ar waith. Dylech gofio na fydd gan staff carchardai ffôn symudol, yn aml gallwch ei ffonio gan ddefnyddio llinell ddaear.
3. Yn aml, ni fydd staff mewn carchardai wrth eu desg, felly dylech ganiatáu amser ychwanegol iddynt ymateb i negeseuon e-bost. Ni fyddant yn gallu gweld eu negeseuon e-bost ar ffonau symudol ychwaith.
4. Mae hyfforddiant adeiladu eisoes yn cael ei ddarparu mewn carchardai yng Nghymru. Fel cyflogwr, gallwch ychwanegu gwerth drwy gynnal sgysiau gyrfaedd, ffug-gyfweliadau, gweithgareddau magu hyder a thrwy roi ymdeimlad o obaith i bobl bod gan y diwydiant adeiladu ddiddordeb ynddynt.
5. Ni fyddwch yn gallu tynnu lluniau mewn carchardai. Mae'n bosibl y bydd aelod o staff y carchar yn gallu tynnu lluniau ond bydd angen cuddio wynebâu carcharorion mewn unrhyw luniau. Gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddarparu lluniau o bobl yn gweithio mewn carchardai y gellir eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol:
www.gov.uk/government/publications/unlock-opportunity-employer-information-pack-and-case-studies
6. Os byddwch yn rhoi cyflwyniad mewn carchar, mae'n bwysig bod y cyflwyniad ar y lefel briodol. Mae'n bosibl y byddai cyflwyniad cyffredinol i'r diwydiant yn fwy addas ar gyfer cyflwyniad mewn ysgol. Mae sôn am ddatblygiad sy'n mynd rhagddo a swyddi posibl yn syniad da.
7. Fel gweithgaredd torri'r iâ cyn gweithdy neu gyflwyniad, mae'n syniad da gofyn pa lefel o brofiad sydd gan bobl a pha swyddi sydd o ddiddordeb iddynt.

¹¹ Mae Carchar EM Prescoed yn garchar lloeren sy'n rhan o Garchar EM Brynbuga

8. Os hoffech gyflwyno hyfforddiant cyflogadwyedd mewn carchar ond nad ydych yn siwr beth i'w gynnwys, gofynnwch i staff y carchar ddosbarthu'r Ffurflen Ymgynghori a gynhwysir yn atodiad tri.
9. Bydd y preswylwyr yn awyddus i siarad â chi. Byddwch yn barod i ateb cwestiynau ynghylch pam eich bod yno ac i ateb cwestiynau am eich rôl a'r sefydliad rydych yn gweithio iddo.
10. Bydd y preswylwyr yn awyddus iawn i weithio i chi ac mae'n bosibl y byddant yn gofyn am fanylion cyswllt. Ceisiwch drefnu ymlaen llaw sut y gellir cysylltu â chi. Mae'n iawn rhoi rhif ffôn cyswllt iddynt ond cofiwch na fyddant yn gallu cysylltu â chi hyd nes y byddant wedi cael eu rhyddhau o'r carchar.

Helpu Cyn-droseddwyr i ddod o hyd i Swyddi Adeiladu yn y Gymuned

Gall cwmnïau adeiladu helpu cyn-droseddwyr yn y gymuned. Gall y broses recriwtio fod yn llafurus ac yn heriol. Gall fod yn fwy effeithiol gweithio gydag asiantaethau ac elusennau sydd eisoes yn gweithio gyda chyn-droseddwyr. Gall y Ganolfan Gwaith hefyd recriwtio ar gyfer gweithgareddau a gall ddewis cyfranogwyr gan ddefnyddio meini prawf sy'n cynnwys unigolion sy'n gyn-droseddwyr. Gall gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd parti hefyd helpu i reoli'r broses a'r risg ganfyddedig sy'n gysylltiedig â gweithio gyda chyn-droseddwyr.

Recriwtio Cyn-droseddwyr yn y Gymuned

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (CRC) yn rheoli gwasanaethau adsefydlu mewn carchardai yng Nghymru. Mae'r carchardai hyn yn cynnwys Caerdydd, Parc, Abertawe a Brynbuga/Prescoed a Berwyn. Mae hefyd yn rheoli gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n adsefydlu yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau adsefydlu ar gyfer carchar menywod Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw. Mae gwasanaethau drwy'r porth yn helpu pobl i ailintreiddio i'r gymuned. Caiff rhai o'r gwasanaethau eu darparu gan isgcontractwyr ar ran CRC, sef Ymddiriedolaeth St Giles i ddynion a Cymru Ddiogelach i fenywod.

Gweithio gydag Elusennau sy'n Helpu Cyn-droseddwyr

Mae nifer o elusennau yng Nghymru sy'n cynnal prosiectau i helpu cyn-droseddwyr. Mae'r elusennau hyn yn awyddus i weithio gyda chyflogwyr er mwyn helpu eu cleientiaid i ddod o hyd i gyflogaeth. Mae prosiect BOSS gan The Wallich yn enghraifft dda o elusen sy'n helpu cyn-droseddwyr i ddod o hyd i gyflogaeth, gan gynnwys cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu yn Ne Cymru.

Sefydliad	Dolen i'r Manylion Cyswllt:
CRC Cymru	walescrc.co.uk/content/view/office+finder
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	www.gov.uk/government/publications/probation-directory
Ymddiriedolaeth St Giles	www.stgilestrust.org.uk/page/contact-us
Cymru Ddiogelach	www.cymruddiogelach.com/cysylltwch-a-ni/
Y Ganolfan Byd Gwaith (chwilio am swyddfa leol)	ios.direct.gov.uk/
The Wallich	thewallich.com/contact/

Adnoddau Recriwtio

Fel rhan o'r Pecyn Cymorth, cynhwyswyd templed ar gyfer Ffurflen Atgyfeirio yn atodiad pedwar. Gellir ei hanfon at asiantaethau atgyfeirio. Mae'r ffurflen atgyfeirio yn nodi manylion yr atgyfeiriwr, y cyfranogwr, a'r buddiannau a ragwelir ar gyfer y cyfranogwr.

Arfer Da: Diwrnod Adeiladu Cymunedol

Gall cwmnïau adeiladu gynnal diwrnod cymunedol a gwahodd cyn-droseddwyr i safle adeiladu. Cynhaliodd McLaren Construction 'Diwrnod Cymunedol Grŵp Adeiladu' a oedd yn cynnwys ymweliad â'r safle, ymarfer lechyd a Diogelwch, ffug-brawf CSCS a gweithdy cyflogadwyedd. Cafodd y prosiect cymunedol lawer o adborth cadarnhaol gan y sector cyfiawnder troseddol. Roedd cwmni a oedd yn rhan o gadwyn gyflenwi McLaren yn awyddus i benodi llafurwr a gwnaethant gynnig cyfle i'r ymgeisydd mwyaf addawol. Roedd gweithgareddau'r bore yn cynnwys cardiau 'Spot & Shout It' a ffug-broffion CSCS. Cafwyd sgwrs ysbrydoledig gan baffiwr a oedd wedi troseddu ond a lwyddodd i newid cyfeiriad ei fywyd, gan ddechrau gyrfa lwyddiannus.

Cafodd y cyfranogwyr ginio mewn bwyty lleol cyn y gweithdai cyflogadwyedd yn y prynhawn. Yn y prynhawn, daeth yr adran Adnoddau Dynol i egluro rhywfaint am y swyddi a oedd ar gael. Trafodwyd sgiliau CV a sgiliau cyfweiliad gyda'r cyfranogwyr. Ar ôl hynny, rhoddwyd cyfnod o bythefnos i'r cyfranogwyr gyflwyno eu CV ar gyfer y swydd gwaith daear a oedd ar gael. Wedyn, rhoddwyd cyfnod o bythefnos i'r cyfranogwyr gyflwyno eu CV a gwahoddwyd y ddau ymgeisydd mwyaf addawol am gyfweiliad.

Profiad Gwaith

Gall profiad gwaith fod yn ffordd dda o weld a yw ymgeisydd yn meddu ar y sgiliau a'r agweddau cywir cyn ei gyflogi. Mae angen cynnig tâl am leoliadau gwaith neu os byddant yn lleoliadau gwaith di-dâl, rhaid cytuno ar gyfnod penodedig o amser, er enghraifft pythefnos, a rhaid bod posibilrwydd y byddant yn arwain at rywbeth. Cynhwysir Templed Cytundeb Profiad Gwaith y gellir ei olygu yn atodiad pump. Gellir ei addasu i ddiwallu anghenion cyflogwyr.

Recriwtio ar gyfer Cwrs: Cynlluniau Gweithredu Unigol

Helpodd Wates Cardiff Living yr Ymddiriedolaeth Ieuenctid Adeiladu i gynnig cwrs adeiladu i gyn-droseddwyr yn y gymuned. Fel rhan o brosiect Llechen Lân Cymru, defnyddiwyd y Cynlluniau Gweithredu Unigol fel man cychwyn ar gyfer cyfweiliad i gael lle ar y cwrs. Atgyfeiriwyd cyfanswm o 20 o ddarpar gyfranogwyr i'r cwrs. Ystyriwyd bod cyfweiliadau recriwtio yn ffordd dda o sicrhau bod yr unigolion priodol yn cael budd o gael eu hatgyfeirio i'r cwrs. Roedd y Cynllun Gweithredu Unigol a gynhwysir yn atodiad chwech yn ffordd effeithiol o gael gwybod mwy am y myfyrwyr yn y cyfweiliad, eu hanghenion dysgu a'u dyheadau. Cymerodd y cyfweiliadau recriwtio ar gyfer y cwrs tua awr. Roedd hyn yn cynnwys llenwi'r Cynllun Gweithredu Unigol, y ffurflen manylion personol a thrafod strwythur y cwrs.

Beth sy'n Gweithio yn y Gymuned

Bu llawer i'w ddysgu fel rhan o brosiect Llechen Lân Cymru am yr hyn a fu'n llwyddiannus wrth weithio yn y gymuned. Mae'r deg pwynt canlynol yn nodi deg maes sydd wedi cyfrannu at lwyddiant y prosiect, yn ein barn ni:

1. Cofiwch fod angen cryn dipyn o amser ac ymdrech i recriwtio pobl ar gyfer cwrs byr neu ymweliad safle. Gweithiwch gyda'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP), y gwasanaeth prawf ac elusennau fel The Wallich i recriwtio cyfranogwyr.
2. Os hoffech weithio gyda chyn-droseddwyr, gall y Ganolfan Byd Gwaith hidlo cleientiaid ar eich cyfer.
3. Os hoffech recriwtio menywod â cholffarnau, dylech ganiatáu hyd yn oed mwy o amser. Mae llai o fenywod yn troseddu na dynion. Dim ond tua 5% o'r boblogaeth mewn carchardai sy'n fenywod. Ar 16 Mehefin 2017, roedd 3,994 o fenywod yn y carchar yng Nghymru a Lloegr¹².
4. Mae cyfarfod â'r bobl cyn ymyriad yn syniad da, yn enwedig os ydych yn recriwtio ar gyfer cwrs drud. Cewch wybod pwy sy'n uchel eu cymhelliant, pwy sydd â diddordeb mewn gweithio yn y diwydiant adeiladu a phwy sydd â'r agwedd gywir.
5. Gall gweithio gyda sefydliadau eraill, er enghraifft elusennau, ychwanegu gwerth at eich ymyriad drwy gynnwys cymorth mentora.
6. Gallwch wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Dylech ddathlu llwyddiant ond peidiwch â phoeni gormod os na fydd pethau'n myndystal â'r disgwyl. Mae'n digwydd.
7. Un peth y mae llawer o gyn-droseddwyr, o bob oedran, wedi'i ddweud wrthym yn ystod prosiect Llechen Lân Cymru yw nad ydynt erioed wedi cael cyfweiliad am swydd. Byddwch yn ymwybodol o hyn. Efallai y byddai'n well gwahodd ymgeiswyr i gael sgwrs anffurfiol yn hytrach na chyfweiliad am swydd.
8. Os nad oes unrhyw gyfleoedd ar gael gennych chi neu o fewn eich cadwyn gyflenwi, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd ar gael gan yr asiantaeth cyflogi rydych yn ei defnyddio.
9. Byddwch yn realistig o ran pellterau teithio addas. Ni fydd pobl yn gallu manteisio ar gyfleoedd os na fyddant yn gallu eu cyrraedd. Os oes ganddynt dag, bydd hefyd angen iddynt adael eu cartref ar ôl amser penodol a dychwelyd erbyn amser penodol. Gall hyn hefyd gyfyngu ar yr ardaloedd y gallant deithio iddynt.
10. Os bydd pobl yn ddigartref neu'n byw mewn llety ansicr, byddwch yn gydymdeimladol. Mae bron yn amhosibl ystyried cyflogaeth os nad oes gennych rywle i fyw.



¹² Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). *Prison the facts, Bromley Briefings Summer 2017*. Ar gael yn: <http://www.prisonreformtrust.org.uk/portals/0/documents/bromley%20briefings/summer%202017%20factfile.pdf>

Adran Dau Ymyriadau

Mae adran dau o'r Pecyn Cymorth yn ystyried ymyriadau gyda phobl â cholffarnau yn y gymuned ac mewn carchardai. Yn gyntaf, ceir enghraifft o gwrs adeiladu yn y gymuned ac mewn carchar. Yn ail, ceir esboniad cryno o'r templedi ar gyfer gwaith papur a brofwyd yn ystod cynlluniau peilot 'Llechen Lân Cymru' a darperir y templedi.

Adran Dau Ymyriadau

Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru: Adran Dau Ymyriadau

- Atodiad Saith: Rhestr Wirio Parodrwydd i Weithio
- Atodiad Wyth: Gwe Effeithiau

Adran Dau Ymyriadau

Mae'r adran hon o'r Pecyn Cymorth yn ystyried mentrau o dan arweiniad y diwydiant adeiladu ar gyfer cyn-droseddwy. Mae'r adran hon yn cynnwys enghreifftiau cryno o fentrau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â phobl â cholffarnau a gwybodaeth a thempledi a allai fod yn ddefnyddiol. Fel gyda phob templed sy'n rhan o'r Pecyn Cymorth, gellir golygu'r dogfennau er mwyn diwallu eich anghenion. Rhestrir rhai enghreifftiau o fentrau o dan arweiniad y diwydiant adeiladu i helpu pobl â cholffarnau isod, un yn y gymuned ac un mewn carchar. Wedyn, mae'r Pecyn Cymorth yn ystyried templedi a all fod yn ddefnyddiol wrth helpu cyn-droseddwy i fanteisio ar gyfleoedd yn y diwydiant adeiladu.

Cwrs Adeiladu Cymunedol: Wates Cardiff Living

Noddwyd cwrs Wates Cardiff Living gan Wates ac fe'i darparwyd mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Ieuenctid Adeiladu fel rhan o brosiect Llechen Lân Cymru. Cafwyd atgyfeiriadau gan y Ganolfan Byd Gwaith, cymdeithasau tai, Working Links a Cymunedau am Waith. Roedd gan y dysgwyr ar y cwrs hanes amrywiol o ran addysg a throsedd. Fel rhan o'r cwrs saith diwrnod, treuliodd y dysgwyr ddiwrnod ar un o safleoedd adeiladu Wates yn cael cyflwyniad lechyd a Diogelwch, sgysiau am y diwydiant ac yn cael eu tywys o amgylch y safle. Cymerodd y dysgwyr ran mewn sesiwn rhagflas gwaith saer, gan adeiladu blychau ystumod a roddwyd i Dîm Bioamrywiaeth Cyngor Caerffili. Daeth y Tîm Bioamrywiaeth i'r cwrs er mwyn casglu'r blychau ystumod a daethant ag ystumod gyda nhw i'r cwrs er mwyn i'r dysgwyr allu eu gweld.

Cymerodd y dysgwyr hefyd ran mewn gweithgaredd i baratoi ar gyfer profion CSCS. Mae chwech o'r wyth dysgwr wedi pasio eu profion CSCS, gan gynnwys un cyfranogwr a basiodd ei phrawf CSCS y tro cyntaf gan gael pob ateb yn gywir er gwaethaf y ffaith nad oedd ganddi unrhyw brofiad na gwybodaeth flaenorol am y diwydiant adeiladu. Cwblhaodd chwe dysgwr gwrs IOSH Working Safely a rhoddwyd hyfforddiant codi a chario i'r dysgwyr hefyd. Hyd yn hyn, mae pedwar cyfranogwr wedi cael cynnig swydd yn y diwydiant adeiladu ac mae un wedi llwyddo i ennill prentisiaeth gwaith daear ar ôl cael gwahoddiad i ddigwyddiad gan Wates.

Templedi i Gefnogi Ymyriadau

Rhestr Wirio Parodwydd i Weithio

Lluniwyd y 'Rhestr Wirio Parodwydd i Weithio' yn atodiad saith i ddechrau gan nad oedd gan rai o'r unigolion a gymerodd ran ym mhrosiect Llechen Lân Cymru y dogfennau angenrheidiol i brofi bod ganddynt hawl i weithio yn y DU. Ychwanegwyd cwestiynau am gyflogadwyedd pan ddywedodd y cyfranogwyr wrthym nad oeddent erioed wedi cael cyfweiliad am swydd. Mae'r rhestr wirio hefyd yn gofyn cwestiynau sy'n benodol i'r diwydiant adeiladu, megis parodwydd i gymryd profion am gyffuriau a ph'un a ydynt yn barod i weithio'n galed yn gorfforol.

Gwe Effeithiau

Wrth weithio ar brosiectau byrdymor, gall fod yn anodd nodi'r newidiadau a wnaed gan ymyriad. Weithiau, wrth weithio gyda grwpiau sy'n wynebu rhwystrau, byddwch yn gwneud cynnydd ond mae'n bosibl na fydd canlyniad o ran dod o hyd i swydd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch yn gwybod bod eich prosiect wedi gwneud gwahaniaeth i'r unigolyn hwnnw, megis gwella ei hyder. Un ffordd o fesur p'un a yw prosiect wedi gwneud gwahaniaeth i unigolyn yw mesur ei gynnydd tuag at nod. Cynhwyswyd templed ar gyfer Gwe Effeithiau yn atodiad wyth.

Arfer Da: Network Rail yng Ngharchar EM Caerdydd

Mae Network Rail Cymru wedi datblygu rhaglen i ddarparu cymorth, cyngor a chyfarpar proffesiynol i Garchar Caerdydd a'r carcharorion i'w galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi gweithwyr cleddrau yng Nghymru. Y nod yw cynnig cyfle iddynt a sicrhau eu bod yn meddu ar y gallu i ddymchwel y cylch aildroseddu drwy ddarparu hyfforddiant ffurfiol achrededig sy'n arwain at gymhwyster cymhwysedd achrededig. Mae'r rhaglen yn meithrin sgiliau trosglwyddadwy a hyder y carcharorion ynghyd â'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ymgymryd â gwaith i gynnal a chadw'r cleddrau ac, yn y pen draw, i ddod o hyd i gyflogaeth.

Mae'r cwrs yn ymdrin â phrinder sgiliau gan fod prinder dybryd o weithwyr cleddrau trên yn y DU. Nid yw Network Rail yn cael unrhyw fudd uniongyrchol o'r cwrs cleddrau rheilffordd yng Ngharchar EM Caerdydd. Daw'r budd drwy ei iscontractwyr sy'n cyflogi'r gweithwyr cleddrau. Dim ond pythefnos sydd ei angen i gwblhau cwrs Diogelwch Personol ar y Cleddrau (PTS). Fodd bynnag, mae Network Rail yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau meddal yn ogystal â sgiliau technegol er mwyn dod o hyd i gyflogaeth ac mae'r cwrs yn para 12 wythnos. Mae Network Rail yn gwella cyflogadwyedd drwy gyflwyno sgysiau cymell, ffug-gyfweliadau a gweithdai CV gan yr adran adnoddau dynol a darparu pecyn cymorth er mwyn sicrhau bod gweithwyr cleddrau yn gwybod ble i fynd er mwyn dod o hyd i swyddi ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar.



Mae Carchar Caerdydd wedi adeiladu cleddrau rheilffordd go iawn 100 troedfedd o hyd ac mae ganddo ystafell ddsbarth bwrpasol â chyfleusterau newid er mwyn i'r dynion allu gweithio ar y cleddrau. Mae'r carchar yn nodi dysgwyr i ddilyn y cwrs ac mae'n rhaid iddynt gael profion clir am gyffuriau ac alcohol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cwrs. Addysgir diwylliant ac ymddygiad derbyniol hefyd i'r dysgwyr gan Network Rail. Nododd ffigurau diweddar fod tua 65% o'r rheini a astudiodd y cwrs wedi dod o hyd i gyflogaeth â thâl yn y diwydiant rheilffyrdd ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar¹³.

¹³ Parry, G. a Green, E. (2017) Co-creating value: Through the gate and beyond. Adroddiad Prosiect. UWE. Ar gael yn <http://eprints.uwe.ac.uk/30910>

Adran Tri Cyflogaeth

Mae'r adran hon o'r Pecyn Cymorth yn ystyried prosesau recriwtio agored ac yn edrych ar bwysigrwydd cyflogi pobl ar sail eu talent a'u gallu. Ceir thempld y gellir ei olygu ar gyfer cyfweiliadau asesu risg. Gellir ei addasu i'w ddefnyddio gan y diwydiant adeiladu yng Nghymru.

Adran Tri Cyflogaeth:

- Atodiad Naw: Canllawiau a Thempld ar gyfer cwblhau Cyfweiliad Asesu Risg

Cyflogi Cyn-droseddwyr

Mae'r Pecyn Cymorth yn rhoi trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael i'ch helpu i gyflogi cyn-droseddwyr. Nid cyngor cyfreithiol ydyw a bwriedir iddo eich cyfeirio at yr arweiniad sydd ar gael i'ch helpu. Mae'r prosiect 'Mind the Gap' a ariennir gan CITB wedi llunio'r canllaw 'Mind the Gap: a practical guide to employing ex-offenders in the construction industry'¹⁴. Mae'r ddogfen yn cynnig canllaw cynhwysfawr i gyflogi cyn-droseddwyr yn y diwydiant adeiladu.

Cyflogi Cyn-droseddwyr: Prosesau Recriwtio Agored

Ystyr recriwtio agored yw dileu'r rhwystrau diangen sy'n wynebu grwpiau difreintiedig a phenodi staff yn seiliedig ar dalent. Mae tystiolaeth¹⁵ yn awgrymu y gall cyn-droseddwyr fod ymhlith eich cyflogeion gorau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau¹⁶ yn nodi fod cyflogeion sy'n wynebu rhwystrau megis cyn-droseddwyr yn barod i wneud mwy i sicrhau canlyniadau, eu bod yn aros gyda'u cyflogwr am gyfnod hwy, bod ganddynt ymrwymiad cryf i'w sefydliad a chyfraddau absenoldeb is.

Y Broses Gwneud Cais am Swydd: Gwahardd rhag Gofyn (menter 'Ban the Box' yn Saesneg)

Mae dau ffactor yn gysylltiedig â gofyn i bobl am gofnod troseddol ar ffurflen gwneud cais am swydd. Yn gyntaf, os mai dim ond ateb Oes/Nac Oes sydd ar gael i ymgeiswyr neu gyfle i ysgrifennu ychydig linellau yn unig, ni fydd gan gyflogwyr ddigon o dystiolaeth i wneud penderfyniad gwybodus ar sail tystiolaeth. Mae Busnes yn y Gymuned (BITC) yn argymhell y dylai cyflogwyr ddileu cwestiynau datgelu troseddau o gam cyntaf y broses recriwtio. Maent yn awgrymu y dylai cyflogwyr ddiwygio polisïau a gweithdrefnau recriwtio, ffurflenni cais a phyrth ar-lein er mwyn sicrhau na fyddant yn gwahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn ymgeiswyr â chofnod troseddol. Mae hyn yn golygu y caiff ymgeiswyr eu hasesu i ddechrau yn ôl eu sgiliau, eu cymwysterau a'u gallu i wneud y swydd. Mae'n fwy priodol gofyn am gollfarnau troseddol yn ddiweddarach yn ystod y broses recriwtio er mwyn i ymgeiswyr allu darparu mwy o wybodaeth am amgylchiadau'r drosedd a llywio asesiad risg y cyflogwr yn well.

Collfarnau sydd wedi Disbyddu

Ni all cyflogwyr wrthod rhoi swydd i unigolyn os bydd yr unigolyn hwnnw wedi'i gollfarnu o drosedd ond bod y gollfarn neu'r rhybudd wedi disbyddu. Nid oes angen i ymgeiswyr swydd hysbysu darpar gyflogwyr am gollfarnau neu rybuddion sydd wedi disbyddu. I gael rhagor o fanylion am gollfarnau sydd wedi disbyddu, gweler cyngor Llywodraeth y DU ar gyflogi cyn-droseddwyr: www.gov.uk/exoffenders-and-employment

Gwiriadau Cofnodion Troseddol

Nid oes angen gwiriadau cofnodion troseddol ar gyfer pob swydd. Yn aml, nid ydynt yn berthnasol ar gyfer y swydd y gwneir cais amdani. Dylai cyflogwyr hysbysu ymgeiswyr o ddechrau'r broses gwneud cais pa wybodaeth a gaiff ei chasglu ganddynt a pham, ac yn ystod pa gam o'r broses gwneud cais y gofynnir am y wybodaeth. Bydd hyn yn helpu'r ymgeisydd i benderfynu p'un a ddylai wneud cais am y swydd. Dylai cyflogwyr bwysleisio mai dim ond os bydd yn berthnasol ar gyfer y swydd y gwneir cais amdani y caiff gwybodaeth ar gofnodion troseddol ei hystyried. Ni ddylid gwahaniaethu'n annheg yn erbyn ymgeiswyr a dylid ystyried ymgeiswyr ar sail eu sgiliau, eu cymwysterau a'u gallu i wneud y gwaith yn gyntaf.

Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi, ni chewch ystyried collfarnau sydd wedi 'disbyddu' o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Byddech hefyd yn gweithredu mewn modd anghyfreithlon drwy gynnal gwiriad cofnodion troseddol ar lefel sy'n amhriodol ar gyfer y swydd. Gellid erlyn cyflogwyr sy'n gwneud hyn am brosesu data o natur sensitif yn anghyfreithlon. Dim ond ar gyfer swyddi neu broffesiynau penodol y dylid cynnal gwiriadau DBS.

Os nad ydych yn siŵr p'un a ddylech gynnal gwiriad DBS ar gyfer swydd, gallwch gysylltu â gwasanaethau

¹⁴ Headley, D. (2018). Mind the Gap: A practical guide to employing ex-offenders in the construction industry. Ar gael yn: www.nacro.org.uk/training-and-consultancy/mind-gap-project/mind-the-gap-practical-guide-employing-ex-offenders-construction-industry/

¹⁵ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2017). *The new step-by-step guide to help you achieve open recruitment*. Llundain: See Potential a Busnes yn y Gymuned.

¹⁶ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2017). *The new step-by-step guide to help you achieve open recruitment*. Llundain: See Potential a Busnes yn y Gymuned.

cwsmeriaid DBS drwy ffonio 03000 200 190 neu anfon e-bost i customerservices@dbs.gsi.gov.uk

Cyfweliad Asesu Risg

Os bydd ymgeisydd yn datgelu bod ganddo gollfarn heb ei disbyddu neu os bydd y DBS yn nodi collfarnau heb eu disbyddu, mae'n bwysig cael rhagor o wybodaeth. Efallai y bydd yn amlwg ar unwaith nad yw ymgeisydd yn addas ar gyfer swydd oherwydd ei gofnod troseddol. O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, ni fyddwch yn gwybod p'un a yw ymgeisydd yn anaddas ar gyfer swydd hyd nes y byddwch yn gofyn cwestiynau iddo. Mae cyfweliad asesu risg yn ddefnyddiol yn hyn o beth. Cynhwysir thempled ar gyfer Cyfweliad Asesu Risg yn atodiad naw, ynghyd â nodiadau canllaw. Mae'n bwysig bod darpar gyflogwr yn cynnal asesiad risg gan ddangos sensitifrwydd ac empathi. Dywedodd bron i 100% o'r cyfranogwyr ar brosiect Llechen Lân Cymru wrthym mai ofn datgelu trosedd oedd y ffactor pennaf a oedd yn eu hatal rhag dod o hyd i waith. Mae'r cyfarfod yn cynnig cyfle i'r cyflogwr gasglu'r wybodaeth angenrheidiol ynghyd er mwyn asesu p'un a yw'r ymgeisydd yn peri risg yn y swydd y gwnaed cais amdani. Ceir canllawiau ar gwblhau cyfweliad asesu risg a thempled y gellir ei ddefnyddio wrth gwblhau cyfweliad asesu risg yn atodiad naw.

Adran Pedwar: Cyfeirio a Chymorth Pellach

Fel rhan o brosiect Llechen Lân Cymru, gwnaethom weithio gyda'r diwydiant adeiladu er mwyn helpu cyn-droseddwy'r i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgymryd â hyfforddiant adeiladu a dod o hyd i gyflogaeth yn y maes. Mae'r adran hon o'r Pecyn Cymorth yn edrych ar enghreifftiau o'r sefydliadau y gellir cyfeirio cyn-droseddwy'r atynt os bydd angen cymorth ychwanegol arnynt. Os ydych yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, byddwch yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n ymwneud â'r diwydiant hwnnw. Os bydd angen help â materion nad ydynt yn gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu ar y bobl rydych yn eu cefnogi, bydd angen i chi eu cyfeirio at wasanaethau eraill.

Datgelu Trosedd

Roedd bron i 100% o'r cyfranogwyr ar brosiect Llechen Lân Cymru o'r farn mai datgelu trosedd oedd y ffactor pennaf a oedd yn eu hatal rhag dod o hyd i gyflogaeth.

Gall y rheolau sy'n gysylltiedig â datgelu fod yn gymhleth. Mae Unlock, sef elusen sy'n helpu cyn-droseddwy'r, wedi datblygu cyfrifiannell datgelu: www.disclosurecalculator.org.uk

Mae gan Unlock linell gymorth hefyd y gall cyn-droseddwy'r ei ffonio er mwyn cael cyngor: 01634 247350 (o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10am a 4pm)
Neges Destun neu WhatsApp: 07824 113848

Cyfeirio

Efallai na fydd bob amser yn bosibl i chi helpu cyn-droseddwy'r heb gael cymorth a bydd angen i chi eu cyfeirio at bobl eraill a sefydliadau eraill. Rydych am helpu pobl ond mae angen i chi fod yn realistig. Os mai darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am y diwydiant adeiladu yw eich rôl, yna nid yw'n briodol i chi roi cyngor ar bethau nad ydych yn arbenigo ynddynt. Mae'n briodol cyfeirio pobl at sefydliadau eraill a all eu helpu. Mae llawer o sefydliadau y gallwch gyfeirio pobl rydych yn eu helpu atynt os na fyddwch chi mewn sefyllfa i'w helpu.

Er enghraifft, roedd un o'r cyfranogwyr ar brosiect Llechen Lân Cymru, Bill, yn awyddus i ddechrau gyrfa yn y diwydiant adeiladu. Gwnaethom gyfarfod â Bill pan oedd yn y carchar o hyd ac roedd yn awyddus i ddod o hyd i swydd yn y diwydiant adeiladu. Gwnaethom gysylltu â Bill yn y gymuned ac roedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r diffyg cymorth ar gyfer ei anghenion iechyd meddwl. Cwmpas y prosiect oedd cynnig hyfforddiant a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ym maes adeiladu. Roedd Bill yn gyn-filwr, felly gwnaethom ei gyfeirio at The Poppy Factory a roddodd gymorth iddo â'i anghenion iechyd meddwl.

Isod ceir rhestr o rai o'r sefydliadau y gallwch gyfeirio pobl atynt er mwyn iddynt gael cymorth:

Cyflogadwyedd ac Entrepreneuriaeth

The Wallich	
Beth y maent yn ei wneud:	Mae prosiect BOSS The Wallich yn darparu hyfforddiant cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth i gyn-droseddwy'r yn Ne Cymru.
Ffôn:	029 2167 4381
E-bost:	BOSS@thewallich.net
Gwefan:	Thewallich.com

Tai

Shelter Cymru	
Beth y maent yn ei wneud:	Cyngor a chymorth tai
Ffôn:	0345 075 5005
E-bost:	sheltermymru.org.uk/email-advice
Gwefan:	sheltermymru.org.uk

Iechyd Meddwl a Lles

Mind Cymru	
Beth y maent yn ei wneud:	Mae Mind Cymru yn darparu llinell wybodaeth er mwyn cael gwybodaeth am fathau o broblemau iechyd meddwl, ble i gael help a meddyginiaethau a gwasanaethau eiriolaeth.
Ffôn:	0300 123 3393
Neges destun:	86463
E-bost:	info@mind.org.uk
Gwefan	www.mind.org.uk

Y Samariaid	
Beth y maent yn ei wneud:	Mae'r Samariaid yn cynnig cymorth emosiynol cyfrinachol 24 awr y dydd.
Ffôn:	116 123
E-bost:	jo@samaritans.org
Gwefan:	www.samaritans.org

Camddefnyddio Sylweddau

DAN 24/7	
Beth y maent yn ei wneud:	Maent yn darparu Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol i Gymru
Ffôn:	0808 808 2234 Neu tecstiwch Dan i 81066
Gwefan:	www.dan247.org.uk/

Cymorth i Gyn-filwyr

The Poppy Factory	
Beth y maent yn ei wneud:	Mae The Poppy Factory yn cynnig gwasanaeth cyflogadwyedd personol am ddim i gyn-filwyr yng Nghymru a Lloegr, gan helpu'r rheini â chyflwr meddygol neu nam i ddychwelyd i'r gwaith.
Ffôn:	020 8940 3305
E-bost:	admin@poppyfactory.org
Gwefan:	www.poppyfactory.org

Atodiad Un: Cynllun Prosiect ar gyfer Gweithio mewn Carchardai ¹⁷

Manylion y Carchar	
Enw'r carchar:	
Cyfeiriad:	
Rhif ffôn:	
Enw'r Llywodraethwr:	
Enw'r prif gyswllt yn y carchar:	
Llinell uniongyrchol y prif gyswllt:	
Cyfeiriad e-bost y cyswllt:	

Manylion y Cwmni Adeiladu	
Enw'r cwmni adeiladu:	
Cyfeiriad:	
Rhif ffôn:	
Cyfarwyddwr:	
Enw'r prif gyswllt ar gyfer y prosiect:	
Llinell uniongyrchol y prif gyswllt:	
Cyfeiriad e-bost y prif gyswllt:	

¹⁷ Addaswyd o Wasanaeth Carchardai EM a Clinks (dim dyddiad). *GOOD PRACTICE GUIDE, getting it right together: Prisons and the Voluntary and Community-based sector*. Llundain: Gwasanaeth Carchardai EM a Clinks.

Disgrifiwch rolau a chyfrifoldebau'r carchar mewn perthynas â'r prosiect.

Disgrifiwch rolau a chyfrifoldebau'r cwmni adeiladu mewn perthynas â'r prosiect.

Paratoi'r Prosiect

Pa faterion y mae angen eu trafod a'u datrys cyn dechrau'r prosiect? Beth sydd angen ei roi ar waith yn benodol cyn y bydd y prosiect yn dechrau?

Pa ddogfennau ategol sy'n ategu'r cynllun prosiect hwn?

e.e. rheoli'r prosiect gan gynnwys materion cyfathrebu, trefniadau ariannu, gofynion hyfforddi, trefniadau monitro a'r broses werthuso, gan gynnwys y posibiladau o ran prif-ffrydio a lledaenu'r prosiect?

Pa gyfnewidiadau ariannol a fydd yn digwydd, os o gwbl, fel rhan o'r prosiect?

Sut y cânt eu cychwyn, eu hawdurdodi a'u talu. A oes angen sicrhau bod unrhyw lwybr archwilio penodol ar waith?

Ar ran y carchar:	
Llofnodwyd:	
Enw mewn Priflythrennau:	
Dyddiad:	

Ar ran y cwmni adeiladu:	
Llofnodwyd:	
Enw mewn Priflythrennau:	
Dyddiad:	

Atodiad Dau: Ffurflen Ffair Gyrfaoedd

Enw:	
Carchar:	
Rhif carchar:	
Ardal y bydd yn dychwelyd iddi:	
Profiad adeiladu:	
A oes gan yr unigolyn Gerdyn CSCS:	
Cymwysterau adeiladu:	
Meysydd diddordeb yn y diwydiant adeiladu:	
Sylwadau:	

Atodiad Tri: Ffurflen Ymgynghori

Enw:	
Rhif Carchar:	
Ardal y bydd yn dychwelyd iddi:	
Dyddiad rhyddhau:	
Ydych chi wedi gweithio yn y diwydiant adeiladu?	
A oes gennych Gerdyn CSCS?	
Allwch chi nodi unrhyw gymwysterau adeiladu sydd gennych?	
Pa swydd adeiladu yr hoffech ei gwneud?	

Sut y gallwn eich helpu i baratoi i gael swydd yn y diwydiant adeiladu? (Ticiwch)

Ymarfer cyfweiliad gyda chyflogwr yn y diwydiant adeiladu	
Cyngor unigol ar yrfaeodd adeiladu	
Paratoi ar gyfer profion CSCS	
Gweithdy gyrfaoedd yn y diwydiant adeiladu er mwyn dysgu am wahanol yrfaeodd	

Gweithdy CV	
Digwyddiad gyrfaoedd adeiladu	
Sesiwn hyfforddiant lechyd a Diogelwch	
Sgwrs gydag asiantaeth gyflogi a chyfle i gofrestru	

Allwch chi feddwl am unrhyw ffyrdd eraill y gallwn eich helpu?	
---	--

Atodiad Pedwar: Ffurflen Atgyfeirio

Y Sefydliad sy'n Atgyfeirio					Dychwelwch ffurflenni wedi'u cwblhau at:
Enw Cyswllt					Nodwch yr enw:
Rhif Ffôn Cyswllt					Nodwch y cyfeiriad:
Cyfeiriad e-bost					Nodwch y cyfeiriad e-bost:
Enw'r Cyfranogwr	Cyfeiriad/Lleoliad	Cod Post	Rhif Ffôn (os yw'n briodol)	Y prosiect y cyfeirir ato	Y buddiannau a ragwelir i'r unigolyn

Cadarnhaf fod yr unigolyn a enwir uchod yn ymwybodol ei fod wedi cael ei enwebu a chadarnhaf ei fod yn awyddus i gymryd rhan yn y prosiect y cafodd ei enwebu ar ei gyfer.

Llofnodwyd Enw:.....

Dyddiad.....

Atodiad Pump: Cytundeb Lleoliad Gwaith ¹⁸

Mae'r Lleoliad Gwaith hwn yn nodi cytundeb rhwng cyflogwr ac unigolyn ar gyfer lleoliad profiad gwaith di-dâl. Mae'r un mor bwysig pennu rheolau sylfaenol a disgwyliadau ar gyfer lleoliad gwaith di-dâl ag ar gyfer swydd. Mae'n haws i bobl fodloni eich disgwyliadau os ydych yn glir o ran yr hyn rydych yn ei ddisgwyl. Mae'n bwysig pennu terfynau amser ar gyfer lleoliadau gwaith di-dâl a sicrhau bod potensial y gallant arwain at rywbeth.

1. Manylion y Cyflogwr	
Enw'r Cwmni:	
Enw Cyswllt:	
Teitl swydd y cyswllt:	
Rhif ffôn y cyswllt:	
Cyfeiriad y Cwmni:	
Enw'r Cyfranogwr:	
Rhif Ffôn Cyswllt:	
Rheolwr y Lleoliad:	
Rhif Ffôn Cyswllt:	
2. Hyd	
Disgwylir i'r lleoliad bara	
Am (nodwch nifer yr oriau)	awr yr wythnos
Am (nodwch nifer yr wythnosau)	o wythnosau

¹⁸ Addaswyd o NIACRO 'Engaging the Employer: A Best Practice Guide'

3. Presenoldeb

Mae'r diwrnodau y disgwylir presenoldeb fel a ganlyn (rhowch gylch o'u hamgylch)

Llun Mawrth Mercher Iau Gwener Sadwrn

Mae oriau presenoldeb y lleoliad fel a ganlyn:

am i pm

Caiff egwyliâu ar gyfer prydau bwyd a the eu pennu gan y cyflogwr.

(Dylai'r cyflogwr a'r cyfranogwr gytuno ar yr oriau cyflogaeth)

Dylid caniatáu amser i'r cyfranogwyr ymgymryd â hyfforddiant a mynychu cyfweiliadau.

Dylid rhoi gwybod am unrhyw achosion o salwch ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Bydd angen tystysgrif meddyg am salwch o fwy na saith diwrnod.

4. Lleoliad

Lleoliad y profiad gwaith yw:

Fodd bynnag; gall fod angen i chi fynd i unrhyw leoliad lle mae gan y cyflogwr waith.

5. Treulïau/Taliadau

Dileer fel y bo'n briodol:

Mae'r lleoliad yn wirfoddol ac nid yw'n gyflogaeth â thâl. [nodwch enw'r cwmni] fydd yn gyfrifol am dreulïau ychwanegol.

6. Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr

Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus	Oes/Nac oes
--	--------------------

Cwmni:

Gwiriwyd Gan:

Dyddiad Gwrio:

Dyddiad Dod i Ben:

Dyddiad Gwrio Eto:

7. Terfynu'r Cytundeb

Gall y naill barti ddod â'r cytundeb i ben heb roi rheswm drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r parti arall.

Atodiad Chwech: Templed ar gyfer Cynllun Gweithredu Unigol

Eich Enw	
Dyddiad Heddiw	

CAM 1: Ble'r ydych chi arni?

Profiadau dysgu blaenorol
<i>Rhestrwch unrhyw gymwysterau sydd gennych:</i>
<i>Pan fyddwch yn ystyried dysgu sgiliau newydd, sut ydych chi'n teimlo?</i>

Sut ydych chi'n hoffi dysgu? (*Ticiwch gynifer o flychau a fynnoch chi*)

Gwranddo a gwneud		Gweithgareddau ymarferol		Defnyddio cyfrifiadur		Ar fy mhen fy hun	
Ysgrifennu pethau i lawr		Gweledol - Teledu, Fideo, DVD		Trafod, dadlau		Mewn grŵp	
Ailadrodd ac ymarfer pethau		Gwyllo arddangosiad		Defnyddio llyfrau a darllen		Cwisiau, croeseiriau ac ati	
Arall – nodwch							

Eich gallu o ran llythrennedd

Sut ydych chi'n teimlo am eich gallu i ddarllen?

Sut ydych chi'n teimlo am ddarllen yn uchel yn gyhoeddus?

Sut ydych chi'n teimlo am eich gallu i ysgrifennu?

Sut ydych chi'n teimlo am siarad mewn grŵp?

Eich gallu o ran rhifedd

Ydych chi'n gallu ymdopi ag amrywiaeth o dasgau megis delio ag arian, dweud yr amser, defnyddio tâp mesur?

Barn y cyfranogwr am ei allu o ran TGCh

Ydych chi'n gallu ymdopi â thasgau megis mynd ar y we, cwblhau ffurflen gais ar-lein, lanlwytho CV, teipio llythyr, defnyddio taenlen?

Barn y cyfranogwr am ei barodrwydd i weithio

Ydych chi'n gallu ymrwymo i weithio oriau hir bob dydd ac ymdopi â hynny?

Ydych chi'n gallu dilyn cyfarwyddyd a gweithio mewn tîm?

CAM 2: Ble'r hoffech chi fod?

Amcanion byrdymor a hirdymor a chynlluniau gyrfa

Disgrifiwch unrhyw nodau byrdymor a/neu hirdymor sydd gennych:

CAM 3: Sut fyddwch chi'n eu cyflawni?

Ceisiwch rannu unrhyw amcanion mawr yn dasgau llai o faint sy'n hawdd eu cyflawni fel nad ydynt yn ymddangos mor anodd.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried yr hyn y gallwch ei wneud NAWR; does dim pwynt cael cynllun gweithredu sy'n dechrau mewn chwe mis.

Cam Gweithredu	Pwy all helpu	Dyddiad cwblhau disgwylidig	Dyddiad cwblhau gwirioneddol
<i>ENGHRAIFFT: Ymchwilio i yrfaeodd yn y diwydiant adeiladu ar wefan 'Am Adeiladu'</i>	<i>Rhywun a all fy ngalluogi i fynd ar-lein yn ddiogel</i>		

CAM 4: Nodwch unrhyw heriau, rhwystrau a thueddiadau hunandrechol

Teimlo fel pe baech yn chwarae'n ofer		Teimlo fel pe baech yn cael eich llethu		Problemau ymddygiad megis rheoli'ch tymer		Ofn cael eich siomi	
Teimlo fel na allwch reoli pethau penodol		Ddim yn ymwybodol o'ch cyflawniadau, sgiliau a rhinweddau cadarnhaol eich hun		Ofn gorfod datgelu cofnod troseddol i gyflogwr neu goleg		Ofn peidio â chael cartref sefydlog	
Angen dod o hyd i ffordd o ailfeithrin cydberthnasau â phlant/teulu		Angen dod o hyd i ffordd o feithrin cydberthnasau newydd a chadarnhaol		Ddim yn ymwybodol o lwybrau gyrfa posibl		Anawsterau neu anableddau dysgu	
Arall – nodwch							

CAM 5: Nodwch strategaethau ymdopi a rhwydweithiau cymorth posibl

Beth gallaf ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn?

CAM 6: Penderfynwch ar amserlen realistig ar gyfer cyflawni eich nod cyffredinol a dyddiad adolygu i weld sut mae pethau'n datblygu

Erbyn pryd?

Dyddiad yr adolygiad:

CAM 7: Adolygwch eich cynnydd

Nodwch unrhyw gyflawniadau, rhwystrau, nodau newydd a chyfleoedd ac ati.

Rwyf wedi trafod y cynllun gweithredu unigol hwn, a byddaf yn ei ddilyn hyd eithaf fy ngallu.

Llofnodwyd (cyfranogwr):

Enw mewn Priflythrennau:

Llofnodwyd (staff):

Enw mewn Priflythrennau:

Dyddiad:

Atodiad Saith: Rhestr Wirio Parodrwydd i Weithio

Eich Enw	
Dyddiad Heddiw	

Rhinweddau Personol			
	Cytuno	Anghytuno	Sylwadau
Gallaf gyrraedd y gwaith yn brydlon			
Gallaf gyrraedd y gwaith bob dydd			
Gallaf wisgo'n briodol ar gyfer y gwaith			
Gwn pa swydd yr hoffwn ei chael yn y diwydiant adeiladu			
Mae gennyf CV			
Gallaf berfformio'n dda mewn cyfweiliad			
Gallaf gymryd cyfarwyddiadau a dilyn tasgau yn ôl y gofyn			
Gallaf gwblhau taflen amser			

Gofynion y Diwydiant Adeiladu			
	Cytuno	Anghytuno	Sylwadau
Gallaf gyrraedd y safle erbyn 8am			
Rwy'n barod i deithio i safleoedd eraill os bydd angen			

Rwy'n barod i weithio'n galed yn gorfforol			
Rwy'n cytuno i gael prawf cyffuriau gorfodol os bydd hynny'n ofynnol gan fy nghyflogwr			
Mae gennyf Gerdyn CSCS			

Gofynion Cyfreithiol			
	Cytuno	Anghytuno	Sylwadau
<p>Mae gennyf dystiolaeth o'r hawl i weithio yn y DU¹⁹ er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pasbort llawn dilys, • Pasbort yr UE neu gerdyn adnabod cenedlaethol, • Trwydded gofrestru neu Ddogfen Mewnfudo Biometrig, dogfen deithio, pasbort neu Ddogfen Statws Mewnfudo a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu Asiantaeth Ffiniau'r DU • Tystysgrif geni lawn o'r DU / tystysgrif mabwysiadu o'r DU, ynghyd â dogfen swyddogol yn nodi rhif Yswiriant Gwladol ac enw'r unigolyn a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr • Tystysgrif gofrestru neu frodori yn nodi bod gan yr unigolyn yr hawl i aros yn y DU, ynghyd â dogfen swyddogol yn nodi rhif Yswiriant Gwladol ac enw'r unigolyn a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr 			
Mae gennyf gyfrif banc			

Llofnodwyd (cyfranogwr):

Enw mewn priflythrennau:

Dyddiad:

Llofnodwyd (aelod o staff):

Enw mewn Priflythrennau:

¹⁹l gael rhestr lawn o'r dogfennau, gweler dogfen y Swyddfa Gartref (2015. *An employer's guide to acceptable right to work documents*. Llundain: Y Swyddfa Gartref. tud 24-25, Ar gael yn: file:///H:/downloads/employers_guide_to_acceptable_right_to_work_documents_v5.pdf


Atodiad Wyth: Gwe Effeithiau

Enw:

.....

Atebwch bob un o'r 8 cwestiwn isod drwy roi cylch o amgylch un o'r rhifau ar y llinell gyfatebol
Nid oes atebion cywir ac anghywir ac mae'n seiliedig ar eich teimladau heddiw

1-2 Ddim o gwbl	3-4 ddim mewn gwirionedd ond rwy'n barod i wneud cynnydd/dysgu	5-6 i raddau gyda chymorth	7-8 rwy'n cytuno ac nid oes angen cymorth arnaf yn hyn o beth
------------------------	---	-----------------------------------	--



- | | |
|--|---|
| <ol style="list-style-type: none"> 1. Rwy'n teimlo'n hyderus 3. Rwy'n barod i weithio ac am gael swydd 5. Rwy'n ymwybodol o 10 swydd o leiaf yn y diwydiant adeiladu (Os byddwch yn ateb 7 neu 8, dylech eu rhestru ar gefn y daflen) 7. Rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad â chyflogwyr | <ol style="list-style-type: none"> 2. Rwy'n barod i ddysgu sgiliau newydd 4. Rwy'n gwybod pa swydd rwyf am ei chael a'r camau y mae angen i mi eu cymryd i gael y swydd honno 6. Rwy'n meddu ar y rhinweddau personol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt (presenoldeb, prydlondeb, dibynadwyedd, ymroddiad) 8. Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio offer |
|--|---|

Cronfa Gwestiynau'r Gwe Effeithiau

Mae cronfa gwestiynau'r Gwe Effeithiau isod yn cynnwys y cwestiynau a nodir yn y Gwe Effeithiau uchod a rhai cwestiynau amgen. Un o'r datganiadau penodol uchod am y diwydiant adeiladu yw 'Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio offer'. Os yw eich menter yn cynnwys gweithdy CV, byddai'n briodol cynnwys 'Rwy'n fodlon â'm CV ac mae'n dangos fy sgiliau a'm cymwyseddau allweddol' yn lle.

Emosiynol ac Agweddau	Sgiliau Cyflogadwyedd
<p>Emosiynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rwy'n teimlo'n hyderus <p>Agweddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rwy'n barod i ddysgu sgiliau newydd Rwy'n barod i weithio ac am gael swydd Rwy'n gwybod pa swydd rwyf am ei chael a'r camau y mae angen i mi eu cymryd i gael y swydd honno 	<ul style="list-style-type: none"> Rwy'n deall pa rinweddau personol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt e.e. presenoldeb, prydlondeb, dibynadwyedd ac ymroddiad Byddwn yn teimlo'n hyderus mewn cyfweiliad Byddwn yn teimlo'n hyderus mewn cyfweiliad dros y ffôn Rwy'n fodlon â'm CV ac mae'n dangos fy sgiliau a'm cymwyseddau allweddol
Rhwydweithiau Cymdeithasol	Sgiliau Cyflogadwyedd (yn benodol i'r diwydiant adeiladu)
<ul style="list-style-type: none"> Rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad â chyflogwyr Rwy'n teimlo'n hyderus yn gweithio fel rhan o dîm 	<ul style="list-style-type: none"> Rwy'n ymwybodol o 10 swydd o leiaf yn y diwydiant adeiladu Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio offer

Cwblhau'r Gwe Effeithiau

Dylid rhoi'r Gwe Effeithiau i'r cyfranogwyr ei chwblhau ar ddechrau ac ar ddiwedd ymyriad. Gallwch naill ai roi peniau gwahanol liw i'r dysgwyr er mwyn i chi wybod lle roeddent arni ar y dechrau ac ar y diwedd neu gallant lenwi darn gwahanol o bapur.

Dadansoddi'r Gwe Effeithiau

Yn dilyn ymyriad, gall gymryd amser i unigolyn fwrw ati i ymgymryd â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Weithiau, ni fydd unigolyn yn barod i fwrw ati ond mae'n bosibl y bydd eich ymyriad wedi ei helpu ar ei daith i ddod o hyd i gyflogaeth. Gall Gwe Effeithiau eich helpu i fesur cynnydd unigolyn sy'n destun ymyriad tuag at nod a chyflwyno adroddiad ar y cynnydd hwnnw.

Atodiad Naw: Canllawiau a Thempled ar gyfer Cyfweiliad Asesu Risg

Os bydd ymgeisydd wedi datgelu bod ganddo gollfarn heb ei disbyddu neu os caiff gwiriad cofnodion troseddol ei ddychwelyd gan nodi collfarn heb ei disbyddu, bydd angen i chi gael rhagor o wybodaeth. Mae cyfweiliad asesu risg yn ddefnyddiol unwaith y byddwch wedi cadarnhau bod ymgeisydd yn meddu ar yr agweddau a'r sgiliau priodol i ymgymryd â'r swydd ond eich bod am sicrhau nad yw'n peri risg i'ch busnes.

Gall trafod collfarnau blaenorol achosi pryder a chodi cywilydd ar ymgeiswyr. Mae'n bwysig cynnal y cyfweiliad gan ddangos sensitifrwydd ac empathi. Diben y cyfweiliad yw helpu'r cyflogwr i gasglu digon o wybodaeth i weld a yw'r ymgeisydd yn peri risg yn y swydd y gwnaed cais amdani.

Isod ceir rhai enghreifftiau o gwestiynau²⁰ y gallwch eu gofyn i rywun â chollfarnau er mwyn gosod unrhyw hanes o droseddu yn ei gyd-destun:

- Pa droseddau sydd ar eich cofnod a sawl trosedd a gyflawnwyd gennych?
- Pa gosbau a gawsoch am y troseddau hyn?
- Faint o amser sydd ers eich troseddau?
- A allech roi cefndir eich troseddau i mi?
- A gyflawnwyd y troseddau hyn yn fyrbwyll neu'n fwriadol?
- A fydech yn gwneud unrhyw beth yn wahanol nawr?
- Beth rydych wedi'i wneud ers cyflawni'r troseddau hyn?
- Sut y gallwch roi tawelwch meddwl i mi na fyddwch yn peri risg i'm busnes?

Pethau i'w Hystyried yn y Cyfweiliad Asesu Risg

- Y peth pwysicaf i'w ystyried yw sgiliau'r ymgeisydd a'i allu i wneud y gwaith.
- A yw'r drosedd hyd yn oed yn berthnasol i'r swydd y gwneir cais amdani? E.e. nid yw trosedd yfed a gyrru yn berthnasol i swydd lle nad oes angen gyrru.
- Pa mor ddifrifol oedd y drosedd? Mae'n bwysig peidio â diystyru ymgeisydd ar sail trosedd benodol. Gall codau troseddau gynnwys amrywiaeth o droseddau a all fod yn wahanol o ran eu difrifoldeb. Mae trais yn cyfeirio at bopeth o slapiau a bonclustiau, a gofnodir fel arfer fel achos o guro neu ymosodiad cyffredin, i niwed corfforol difrifol a llofruddiaeth. Yn aml, gall codau troseddau wneud i'r digwyddiad ymddangos yn fwy difrifol; felly mae'n bwysig iawn cael rhagor o fanylion am yr hyn a ddigwyddodd.
- Beth oedd amgylchiadau'r drosedd, a oedd unrhyw amgylchiadau lliniarol, a oedd unrhyw broblemau o ran digartrefedd, cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau neu berthynas a oedd wedi chwalu?
- Beth oedd agwedd yr ymgeisydd at y drosedd a gyflawnwyd? A ddangosodd ei fod yn edifar ganddo neu a gymerodd gyfrifoldeb am ei weithredoedd? A wnaeth yr ymgeisydd ymdrechion i unioni'r cam ag unrhyw ddiodefwr?
- Beth oedd oedran yr ymgeisydd pan gyflawnodd y drosedd? Dylech ystyried p'un a yw ei amgylchiadau wedi newid. Er enghraifft, nid yw pobl a gaiff eu collfarnu pan fyddant yn ifanc yn dueddol o aildroseddu unwaith y bydd ganddynt deulu neu forgais gan fod ganddynt ormod i'w gollu.

²⁰ Cyflogwyr Busnes yn y Gymuned: The Right Step Employers Toolkit. Ar gael yn: www.bitc.org.uk/sites/default/files/right_step_toolkit_jan_2012.pdf

Cyfweliad Asesu Risg

Enw'r Ymgeisydd:	
Swydd y gwneir cais amdani:	
Dyddiad asesu:	
Enw'r aseswr cyntaf:	
Enw'r ail aseswr:	

Natur y Drosedd (Troseddau)	
Trosedd(au)	
A wnaeth yr ymgeisydd ddatgan y materion ar y ffurflen Cais Datgelu (DBS) a/neu'r ffurflen gais personol a/neu yn ystod y cyfweliad? Os naddo, pam hynny?	
Dyddiad y gollfarn (collfarnau)	
A gyflawnwyd y drosedd yn ddiweddar? (ni fydd troseddau a ddigwyddodd beth amser yn ôl mor berthnasol)	
Dedfryd(au) a roddwyd	
Oedran ar adeg y drosedd (troseddau)	
Beth yw oedran yr ymgeisydd nawr?	

Cyfnod amser ers y gollfarn (collfarnau)	
---	--

Rhan B: Cyfweiliad Asesu Risg gyda Nodiadau Canllaw

Cyfweiliad Asesu Risg (gyda nodiadau canllaw)	
A yw'r unigolyn yn cytuno bod y wybodaeth a nodir ar dystysgrif y DBS yn gywir?	
Beth oedd amgylchiadau'r drosedd (troseddau)? (A oedd unrhyw amgylchiadau lliniarol digartrefedd, cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau neu berthynas a oedd wedi chwalu)?	
Beth yw agwedd yr ymgeisydd at y drosedd?	
A yw'r ymgeisydd yn gwneud ymdrechion i beidio ag aildroseddu?	

Cwestiwn	Do/Naddo Ydy/Nac ydy Ydynt/Nac ydynt	Rhowch fanylion
A yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid er gwell ers y drosedd (troseddau)? <i>Edrychwch ar yr amgylchiadau, gan gynnwys patrwm cyflogaeth, a gwrandewch ar esboniad yr ymgeisydd.</i>		
A yw'r troseddau yn berthnasol i'r swydd?		

<p><i>Ystyriwch natur y swydd mewn perthynas â'r drosedd (troseddau) a ddatgelwyd.</i></p>		
<p>A yw'r ymgeisydd yn cael cymorth gan unrhyw asiantaethau?</p>		
<p>A fydd unrhyw gyfleoedd i ddeiliad y swydd aildroseddu yn ei weithle?</p>		
<p>A yw'r swydd yn cynnwys achosion rheolaidd o gyswllt personol/heb oruchwyliaeth â'r cyhoedd?</p>		
<p>A oes unrhyw dystiolaeth na all yr ymgeisydd reoli achosion o wrthdaro neu na all ymdopi ag ymddygiad heriol?</p>		
<p>A gafwyd geirdaon addas ac a gadarnhawyd manylion adnabod yr ymgeisydd? (os oedd unrhyw faterion a achosodd bryder yn y geirdaon, nodwch fanylion)</p>		

Ffynonellau Gwybodaeth Bellach

Mind the Gap. (2018). A practical guide to employing ex-offenders in the construction industry' ar gael yn: www.nacro.org.uk/mindthegap

Gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddarparu lluniau o bobl yn gweithio mewn carchardai y gellir eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol: www.gov.uk/government/publications/unlock-opportunity-employer-information-pack-and-case-studies

Nacro 'Recruiting Safely and Fairly: A Practical Guide to Employing Ex-Offenders. Ar gael yn www.nacro.org.uk/resettlement-advice-service/support-for-employers/recruiting-safely-and-fairly-guide-a-practical-guide-to-employing-ex-offenders/

Unlock 'A simple Guide to the Rehabilitation of Offenders Act 1974' ar gael yn: hub.unlock.org.uk/knowledgebase/a-simple-guide-to-the-roa/#click-here-for-the-index-of-this-page

Ffynonellau Gwybodaeth Bellach ar gyfer Prosiect Llechen Lân Cymru

Canllaw Arfer Gorau Llechen Lân Cymru

Mae'r canllaw arfer gorau yn ystyried arfer da sydd i'w weld ar hyn o bryd yn y diwydiant adeiladu wrth ymgysylltu â chyn-droseddwr ac mae'n cynnwys enghreifftiau o arfer gorau a luniwyd o ganlyniad i gynlluniau peilot arloesol a gomisiynwyd o ganlyniad i'r prosiect.

Fframweithiau Llechen Lân Cymru

Fel rhan o brosiect Llechen Lân Cymru, lluniwyd fframweithiau er mwyn helpu cyn-droseddwr i ymuno â'r diwydiant adeiladu ar gyfer pob un o ranbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru. Roedd pob fframwaith yn anelu at ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig er mwyn helpu cyn-droseddwr a'u hannog i ddod o hyd i gyflogaeth yn y diwydiant adeiladu.

Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru

Cynlluniwyd 'Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru' fel adnodd i'r diwydiant adeiladu ei ddefnyddio er mwyn helpu cyn-droseddwr i ddod o hyd i gyflogaeth. Mae Pecyn Cymorth Llechen Lân Cymru yn cynnig adnodd i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru ei ddefnyddio er mwyn helpu cyn-droseddwr i gael gafael ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ym maes adeiladu.

Rhestr termau

Categoriâu	<p>Caiff carcharorion eu rhannu i'r pedwar categori diogelwch canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Categori A: Byddai'r rheini sy'n dianc yn beryglus iawn i'r cyhoedd neu i ddiogelwch gwladol. • Categori B: Y rheini nad oes angen y lefel diogelwch uchaf arnynt, ond y mae angen sicrhau y byddai'n anodd iawn iddynt ddianc. • Categori C: Y rheini na ellir ymddiried ynddynt mewn amodau agored (h.y. carchar heb berimedr diogel) ond nad ydynt yn debygol o geisio dianc. • Categori D: Y rheini y gellir ymddiried yn rhesymol ynddynt i beidio â cheisio dianc, ac y rhoddir braint carchar agored iddynt.
Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC)	<p>Dyma'r enw a roddir ar y rhaglen sy'n gyfrifol am oruchwylio troseddwy'r risg isel a chanolig yn ystod eu cyfnod prawf yng Nghymru a Lloegr.</p>
Dedfryd gymunedol	<p>Dedfryd nad yw'n cynnwys cyfnod yn y carchar a gaiff ei bwrw yn y gymuned yn ymgymryd â gwaith di-dâl, yn ogystal â chyfyngiadau megis cyrffiw a gwaharddiadau rhag mynd i ardaloedd penodol a gofynion i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis triniaeth gyffuriau ac alcohol neu driniaeth iechyd meddwl.</p>
Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)	<p>Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac yn atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA).</p>
Gwiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS)	<p>Dim ond ar gyfer swyddi, proffesiynau, cyflogaeth, swyddfeydd, gweithleoedd a thrwyddedau penodol sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Eithriadau Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974 y dylid cynnal gwiriadau DBS.</p> <p>Os nad ydych yn siŵr p'un a ddylech gynnal gwiriad DBS ar gyfer swydd, gallwch gysylltu â gwasanaethau cwsmeriaid DBS drwy ffonio 03000 200 190 neu anfon e-bost: customerservices@dbs.qsi.gov.uk</p>
Monitro Electronig	<p>Mae monitro electronig, y cyfeirir at y broses hefyd fel 'tagio', yn defnyddio dyfais electronig, breichled ar y ffêr fel arfer, i olrhain symudiadau unigolyn drwy GPS neu drwy amledd radio. Gall llys wneud gorchymyn monitro electronig fel rhan o ddedfryd neu gall fod yn rhan o drwydded cyn-droseddwr pan gaiff ei ryddhau o'r carchar.</p>
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS)	<p>Disodlodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r (NOMS) ym mis Ebrill 2017 fel yr asiantaeth sy'n gyfrifol am y trefniadau gweithredol ar gyfer rheoli troseddwy'r yn y ddalfa ac yn y gymuned.</p>

Trwydded	Y set o amodau y mae'n rhaid i unigolyn eu bodloni pan gaiff ei ryddhau o'r carchar. Os na chânt eu bodloni, gellir adalw'r unigolyn hwnnw i'r carchar.
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Yr asiantaeth sy'n gyfrifol am fonitro troseddwy'r risg uchel yn y gymuned ar ôl iddynt gael eu ryddhau o'r carchar.
Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974	Mae Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974 yn rhoi'r hawl i unigolion â cholffarnau a rhybuddion sydd wedi disbyddu beidio â'u datgelu wrth wneud cais am y rhan fwyaf o swyddi, ac wrth brynu yswiriant. Bydd y ddeddf hon o fudd i'r rhan fwyaf o gyn-droseddwy'r ar ryw adeg yn ystod eu bywyd.
Cyfnod Adsefydlu	Mae cyfnod adsefydlu Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974 yn golygu y gellir ystyried bod rhybuddion, collfarnau, ceryddon a rhybuddion terfynol mewn perthynas â throsedd benodol wedi disbyddu ar ôl cyfnod penodedig o amser, sef y cyfnod adsefydlu, a gaiff ei bennu yn ôl y ddeddf neu'r gwarediad a roddir.
Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL)	Os bydd carcharorion yn dod i'ch busnes i ymgymryd â gwaith neu hyfforddiant gwirfoddol neu gyflogedig, bydd angen trwydded rhyddhad dydd at ddibenion adsefydlu arnynt - sef math o drwydded dros dro. Bydd y drwydded yn nodi'r amseroedd y caniateir i'r unigolyn fod y tu allan i'r carchar. Dim ond os bydd y gwasanaeth carchar yn fodlon na fydd llawer o risg, os o gwbl, y dyfernir trwydded o'r fath. Gall y broses hon roi tawelwch meddwl pellach i gyflogwyr wrth dderbyn preswylwyr o garchardai yng Nghymru.
Wedi disbyddu	Unwaith y bydd rhybudd, collfarn neu rybudd terfynol wedi disbyddu, nid oes angen ei ddatgelu i'r rhan fwyaf o gyflogwyr, nac wrth wneud cais am y rhan fwyaf o gyrsiau. Mae'n erbyn y gyfraith i sefydliad gael gwybodaeth am gollfarnau sydd wedi disbyddu mewn perthynas ag unigolyn penodol oni fydd y gyfraith yn nodi'n benodol y gallant ofyn cwestiwn eithriedig; fel arfer pan fydd rhywun yn gwneud cais am swydd neu rôl sydd wedi'i heithrio rhag y Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: www.gov.uk/exoffenders-and-employment

